# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 11eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Arwel Davies, Euros Puw a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Edwards, Gwynfryn Williams a'r Cyng.Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Gweler cais cynllunio Neuadd Parc.

**iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.**
a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd y cais i greu lleoliad newydd i finiau ysbwriel y tai sydd gyferbyn a Neuadd Parc wedi cael ei anfon ymlaen i'r Adran Ailgylchu i'w ystyried,
ii) Roedd swyddog wedi bod allan i asesu pont pentref Parc ac roedd trefniadau mewn llaw i'w atgyweirio
iii) Cafwyd cadarnhad fod gwaith ar y gweill i glirio ffosydd ardal Parc.

b) Dŵr Cymru.
Adroddodd y clerc fod swyddogion Dŵr Cymru wedi cwrdd a'r cynghorwyr Huw Charles a Alan Evans a hithau i drafod cwynion y trigolion lleol. Cafwyd addewid y byddant yn ail edrych ar ei gweithdrefnau pan fydd angen cau'r ffordd i drwsio namau a hefyd i ymchwilio pam fod pwysedd y cyflenwad dŵr mor uchel.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.
ii) Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27. Cytunwyd i fabwysiadu'r cynigion.

c) Amrywiol.
ii) Cwmpas – grant Prosiect Perthyn.

v) Ceisiadau Cynllunio.
i) Gorchymyn Cyngor Gwynedd i wyro Llwybr Troed rhif 49, Rhyduchaf.
ii) NP5/72/259 - Amnewid dormerau presennol, dormer blaen ychwanegol, a mynedfa flaen newydd gyda grisiau a chanopi. Tŷ Capel Moel-y-Garnedd, Llanycil.
iii) NP5/72/62C – Amnewid ffenestri & drysau presennol. Canolfan Cymunedol Y Parc (Euros Puw yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau.

**vi) Materion Ariannol.**
a) The Pension Regulator.
Llythyr yn ein cynghori fod angen ail gadarnhau manylion y Cyngor, cytunodd y Clerc i wneud hyn.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Derbyniadau.
Cyngor Gwynedd grant ‘Gwynedd Ni’ - £1998.81 (ad-daliad cost y taflunydd, sgrin ayyb).

c) Taliadau
Cytunwyd i gyfrannu £50 i Neuadd Parc tuag at y gost o osod bocsys adar fel rhan o’r cais cynllunio i osod ffenestri a drysau newydd (cyfraniad Prosiectau Bioamrywiaeth blynyddol y Cyngor), (Euros Puw yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

ch) Ceisiadau ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod Talybont ac Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i gyfrannu £150 i Eisteddfod Talybont rwan ac i drafod cais yr Ambiwlans Awyr gyda gweddill o’r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwynion canlynol ymlaen i’r adrannau perthnasol:-
i) Rhiw pentref Parc yn llithrig iawn oherwydd y mes a'r dail oedd wedi disgyn yn ddiweddar.
ii) Culfet ger Tyddyn Ronnen, Llidiardau angen ei glirio.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….